

Cwestiynau Cyffredin am Fatresi

Pam mae'n rhaid i mi archebu lle ar gyfer yr eitem hon?

Mae trefn archebu lle yn cael ei gweithredu er mwyn sicrhau bod lle ar gael yn y cynhwysydd er mwyn i chi allu dod â'ch eitem ac er mwyn sicrhau na fydd eich taith i'r safle yn ofer.

Pam ydych chi'n rhoi cyfyngiadau ar yr eitem hon?

Mae'r eitem hon yn cael ei chyfyngu er mwyn rheoli faint sy'n dod i'r safle oherwydd mai dim ond ychydig iawn o fannau gwaredu sydd yn y DU a bod angen sicrhau eu bod ar gael i gasglu.

Os oes gen i drwydded ar gyfer fan neu drelar, ai dim ond i'm safle trwyddedig y caniateir i mi fynd?

Ie, dim ond i'ch safle trwyddedig y cewch fynd. Bydd dyddiadau ac amseroedd sydd ar gael yn cael eu hychwanegu'n rheolaidd, felly gwiriwch o bryd i'w gilydd.

Beth fydd yn digwydd os bydda i'n hwyr?

Mae'r slotiau amser yn 1 awr o hyd. Os na fyddwch chi'n cyrraedd o fewn y cyfnod hwn, bydd eich archeb chi'n annilys.

Beth fydd yn digwydd os bydda i'n methu fy niwrnod/amser?

Bydd angen i chi gysylltu â Gwasanaethau Stryd ar 01352 701234 os ydych chi am aildrefnu.

Beth alla i wneud os oes gen i fwy na'r swm a ganiateir?

Mae modd i fatresi ychwanegol gael eu casglu fel rhan o gasgliad gwastraff swmpus (attach link) neu gan gludydd gwastraff trwyddedig.

Mae gen i 2 fatres sengl, ydi hyn yn cyfri fel un matres dwbl?

Na, mae pob matres, waeth beth yw ei faint, yn cyfri fel 1 eitem.